PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 12 EBRILL 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Hunt, McKerlich, Murphy, Thomas a/ac Sanders |

83 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni ddaeth unrhyw ymddiheuriadau i law ar gyfer y cyfarfod heddiw. Mae 3 swydd wag ar y Pwyllgor o hyd gan na anfonwyd unrhyw enwebiadau i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth i lenwi'r swyddi gwag presennol.

84 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod 'Ymddygiad yr Aelodau' i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol.

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Sanders | 4 | Cadeirydd Banc Bwyd Caerdydd |

85 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2016 a Mawrth 2016 fel cofnod cywir.

86 : DIRECTORATE DELIVERY PLANS 2016-18

Dywedodd y Cadeirydd bod pedair rhan i'r eitem hon, er mwyn ymdrin â gorchwyl y Pwyllgor yn ei chyfanrwydd.

**CYNLLUN CYFLAWNI'R GYFARWYDDIAETH ADNODDAU:**

Croesawodd y Cadeirydd:

- y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau;
- Philip Lenz, Prif Reolwr Adnoddau Dynol

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn rhan o orchwyl y Pwyllgor, gan gwmpasu gwasanaethau corfforaethol allweddol sy'n cynnwys Cyllid, Comisiynu a Chaffael, Adnoddau Dynol, TGCh, Perfformiad a Phartneriaethau.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Hinchey y byddai'r broses o bennu'r gyllideb yn dechrau yn gynharach eleni er mwyn sicrhau proses fwy agored a thryloyw.  Mae ymgysylltu yn rhan hanfodol o'r gwaith o gynllunio'r gyllideb er mwyn cynnwys y staff a'r cyhoedd yn y broses.  Mae'r gwaith o ddatblygu ac ennyn diddordeb pobl yn Rhaglen Rheolwyr Caerdydd yn parhau i fynd rhagddo o ganlyniad i gynnig y rhaglen i staff Graddau 5-7.  Mae'r agenda yn mynd rhagddo ac mae staff wedi ymrwymo'n llwyr i'r gwaith o'i gyflwyno.

Gwahoddodd y Cadeirydd Christine Salter i roi cyflwyniad.

Roedd y cyflwyniad yn nodi'r canlynol:

- Linell Weld
- Cyfrifoldebau Cyfarwyddiaethau
- Dangosyddion Corfforaethol Allweddol
- Cyflawniadau
- Targedau Ariannol
- Cyd-destunau a Heriau Allweddol
- Blaenoriaethau Busnes
- Cynllunio ar gyfer y Dyfodol
- Mesuryddion Perfformiad

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at Berfformiad a Phartneriaethau yn y Cynllun Cyflawni gan ofyn am eglurhad o'r naratif sy'n datgan "Bydd Perfformiad a Phartneriaethau yn parhau i ddatblygu capasiti a gwydnwch y timau yn y maes hwn, gan ystyried a defnyddio synergeddau rhwng gwahanol feysydd gweithgarwch"
Esboniodd swyddogion bod Perfformiad a Phartneriaethau ar hyn o bryd yn cynnwys Adnoddau Polisi, Swyddfa'r Cabinet a'r Tîm Perfformiad.  Timau bach yw'r rhain a'r bwriad oedd creu timau ymarferol yn seiliedig ar eu sgiliau ac arbenigedd.   Byddai'r timau hefyd yn cael budd o gyfleoedd ehangach.

Mae mecanweithio Cynllunio'r Gweithlu eisoes yn cael eu llunio i gynorthwyo â dilyniant ledled y sefydliad.   Mae prentisiaid TGCh wrthi'n cael eu recriwtio, ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddenu graddedigion.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y gwaith o lunio ffyrdd eraill o weithio yn mynd rhagddo i sicrhau'r arbedion ar gyfer 2016/17.  Roedd dulliau arloesol newydd yn cael eu creu i ddatblygu canolfannau rhagoriaeth i annog arferion gwaith doethach. Mae adroddiad cabinet i sefydlu Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol (CMALl) ar gyfer Gwasanaethau Comisiynu a Chaffael wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin.   Mae'r tîm Comisiynu a Chaffael eisoes yn gweithio i nifer o awdurdodau lleol eraill ac felly gellir teimlo'n hyderus y bydd y CMALl yn llwyddiannus.  Bydd newidiadau i arferion gorfodi parcio yn arwain at gynyddu refeniw i'r Cyngor gan y byddai ffioedd statudol ar gyfer materion gorfodi parcio yn cael eu trin yn fewnol.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at sefyllfa bresennol y rhan o'r gweithlu sy'n gweithio Dros Dro/Achlysurol.  Esboniodd swyddogion bod cyflogi'r 'gweithlu ymylol' hwn yr un mor hanfodol â'r 'gweithlu craidd o ran datblygu dyfodol y sefydliadau a'i set sgiliau.   Mae gofyn am gydbwysedd i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, wrth sicrhau arbedion yn y gyllideb.

Mae Rheoli Gwastraff yn faes sy’n dibynnu ar nifer uchel o staff asiantaeth i gynorthwyo â darparu gwasanaethau. Byddai cyflwyno Modelau Darparu Amgen yn arwain at drefniadau gwaith gwahanol sy’n ateb yr un galw. Mae gofyn magu dealltwriaeth o natur y gweithlu hwn, gan gynnwys cynyddu trefniadau hyblyg.

Gofynnodd y Pwyllgor am strategaethau sydd ar waith i gynorthwyo’r gweithlu, gan gynnwys cydbwysedd o ran rhyw a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar lefel rheoli. Mewn ymateb, sicrhaodd swyddogion y byddant yn cyflwyno’r ffigurau i’r Pwyllgor, gan nad oedd modd rhoi adlewyrchiad cywir o’r sefyllfa ar yr adeg hon. Fodd bynnag, yn yr adran Adnoddau Dynol a Chyllid mae nifer sylweddol o gyflogeion benywaidd yn gweithio mewn swyddi ar lefel Rheoli Gweithredol.

Roedd Aelodau’r Pwyllgor yn bryderus bod rhai cyflogeion yn cael diswyddo’n wirfoddol dim ond i gael eu hailgyflogi gan y Cyngor, rhai ohonynt i'r un swydd. Mewn ymateb, dywedwyd wrth Aelodau’r Cyngor bod yr arfer dan sylw yn newid o fis Ebrill 2015. Roedd yr Undebau Llafur wedi mynegi pryderon ynghylch y mater hwn a gwnaed penderfyniad gan y Cabinet ar ôl mis Ebrill 2015, na chaiff cyflogai sy'n diswyddo'n wirfoddol ddychwelyd i'r sefydliad cyn pen deuddeg mis o'i ddyddiad gadael.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am nifer y gweithwyr asiantaeth gyda chontractau treigl a gyflogir gan y Cyngor. Nid yw’r math hwn o arfer gwaith o fudd i forâl staff a dylai'r Cyngor ymrwymo i sicrhau bod staff asiantaeth/dros dro yn cael statws cyflogai parhaol ar ôl cyfnod penodol.

Sicrhawyd y Pwyllgor bod dulliau eraill o ymgysylltu â staff yn cael eu llunio, gan gynnwys presenoldeb mewn Sioeau Teithiol i Gyflogeion. Mae’r Rhaglen Strategaeth y Gweithlu yn cynorthwyo datblygiad staff mewn 5 maes allweddol:

- Llais y Gweithwyr
- Ymgysylltu â Gweithwyr
- Dysgu a Datblygu
- Rheoli Perfformiad
- Iechyd a Lles

Mae’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu pob elfen fel a ganlyn:

- Christine Salter – Iechyd a Lles
- Paul Orders, Prif Weithredwr – Ymgysylltu â Gweithwyr
- Andrew Gregory – Dysgu a Datblygu
- Sarah McGill – Rheoli Perfformiad

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol ar gyfer Comisiynu a Chaffael yn y broses o gael ei sefydlu ac felly nid oedd unrhyw arbedion wedi’u sicrhau. Mae Gwasanaethau Caffael wedi cynorthwyo ag arbed mwy na £12m dros 3 blynedd.

**CYNLLUN CYFLAWNI’R GYFARWYDDIAETH DATBLYGU ECONOMAIDD**

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Bale, Arweinydd y Cyngor
- Y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Helen Jones Rheolwr Ystadau Strategol

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau, ar gyfer y Gyfarwyddiaeth hon, mai'r gwasanaethau y cyfeirir atynt dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yw Polisi Rhyngwladol ac Ystadau Strategol, sy'n cynnwys rheoli'r ddau bortffolio buddsoddi masnachol gweithredol ac anweithredol. Mae gan y Cynghorydd Bale gyfrifoldeb dros Bolisi Rhyngwladol ac
eiddo anweithredol ac mae gan y Cynghorydd Hinchey gyfrifoldeb dros bolisi Gweithredol.

Roedd y Pwyllgor wedi cael cyflwyniad gan Neil Hanratty a oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Cyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth
- Dangosyddion Corfforaethol Allweddol
- Cyflawniadau 15/16
- Ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol
- Blaenoriaethau Busnes
- Mesuryddion Perfformiad

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Rhoddwyd gwybodaeth i Aelodau o'r Pwyllgor am sefyllfa gyfredol o ran cynnal a chadw ysgolion. Nid yw Datblygu Economaidd yn gyfrifol am reoli cyfleusterau ysgolion, dim ond materion yn ymwneud ag eiddo ysgol strategol. Mae gwella ansawdd ysgolion yn hanfodol, fodd bynnag, gan eu bod yn ffurfio'r rhan fwyaf o ystâd y Cyngor.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at Niferoedd a Nodweddion Staff gan nodi bod oedran 67 o aelodau o staff yn y gyfarwyddiaeth yn amrywio rhwng 55 a 54 oed a gofyn pa gynlluniau dilyniant sydd ar waith. Mewn ymateb, esboniodd swyddogion bod y ffigwr yn ymwneud â 'staff cyfwerth ag amser llawn', a bod hefyd staff achlysurol a thros dro yn cynorthwyo â digwyddiadau. Mae'n hanfodol ymdopi â'r targedau o ran arbedion ac felly nid yw oedran mor bwysig â chynnal y gwasanaeth.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor bod yr adran Diwylliant a Digwyddiadau wedi symud i'r Gyfarwyddiaeth y llynedd a bod hynny wedi arwain at ffigyrau absenoldeb salwch uwch. Mae'r targed absenoldeb salwch bellach wedi'i addasu i adlewyrchu hyn.

Trafododd y Pwyllgor y statws RAG a chawsant eu sicrhau bod y statws coch wedi'i farcio'n gyflawnadwy.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn 2009, bod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad i ddiogelu trefniadau recriwtio er mwyn sicrhau swyddi yn fewnol. Mae Strategaeth Gweithlu bellach ar waith i gynorthwyo â recriwtio a datblygu; mae'r strategaeth yn

cynorthwyo â'r gwaith o sicrhau cyflogaeth yn y dyfodol i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac adlewyrchu poblogaeth Caerdydd.

Esboniodd swyddogion wrth y Pwyllgor bod Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar waith a gaiff ei ystyried gan y Cabinet ym mis Mai. Mae'r Cynllun yn nodi'r blaenoriaethau mewn perthynas â chynorthwyo ag Ystadau a buddsoddi ynddynt. Yn ddelfrydol mae eiddo sydd â photensial i gynhyrchu buddsoddiad yn cael eu targedu ynghyd â dadansoddiad o adeiladau cymunedol. Mae adroddiad JLL yn amlinellu potensial asedau, gyda chyfleoedd i gynhyrchu incwm i gynorthwyo â phrojectau. Dadansoddwyd gwerth ystadau gyda golwg ar ystyried eu defnydd cymdeithasol a'u defnydd ehangach.

Mae cynigion model ADM ar gyfer Neuadd Dewi Sant a'r Theatr Newydd yn parhau i fynd rhagddynt. Mae un cynigydd wedi'i gadarnhau ac mae'r cyfle i arbed arian yn cael ei ystyried. Mae'r ddau leoliad dan sylw wedi cael llai o gymhorthdal ar gyfer 2016/17 ac mae arbedion wedi'u sicrhau yn 2015/16. Mae Diddordeb Cymunedol yn y lleoliadau hyn wedi dod i'r amlwg ac wrthi'n cael ei ystyried. Nodwyd bod y ddau leoliad wedi sicrhau refeniw uwch mewn cysylltiad â digwyddiadau eleni o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at Bolisi Rhyngwladol, a dirywiad Cyngor Busnes Caerdydd. Esboniodd y Cynghorydd Bale bod y Cyngor yn symud ymlaen â'r Fargen Ddinesig a Dinas-ranbarth De-ddwyrain Cymru, sefydliad busnes sy'n gweithredu fel llais busnes yn yr ardal hon. Roedd Dinasoedd Ewropeaidd un gweithredu i gryfhau cysylltiadau drwy efeillio, gan gynnwys cysylltiadau economaidd-gymdeithasol. Mae'r gyllideb ar gyfer Polisi Rhyngwladol wedi cael ei thynnu'n ôl a bellach yn cael ei ystyried fel eitem a etifeddwyd. Y bwriad yw cynnal y perthnasoedd gyda dinasoedd gefeillio yn fwy anffurfiol a pharhau i gynnal a hyrwyddo digwyddiadau yn y ddinas.

**CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETHAU CWSMERIAID**

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Isabelle Bignall, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chymunedau

Bu i'r Cadeirydd atgoffa Aelodau bod y rhan fwyaf o waith y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid y tu allan i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Mae cwmpas y gwaith yn cynnwys Hybiau Cymunedol, Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol (gan gynnwys Cwynion Corfforaethol a'r Gwasanaeth Ymholiadau Aelodau), Gwasanaeth Cwsmeriaid Corfforaethol Technegol a Cysylltu â Chaerdydd (C2C).

Esboniodd y Cynghorydd Hinchey bod C2C wedi ennill gwobr canolfan alwadau gan guro cystadleuwyr o'r sector preifat.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Cyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth
- Dangosyddion Corfforaethol Allweddol

- Cyflawniadau
- Ymrwymiadau’r Cynllun Corfforaethol
- Ymrwymiadau’r Cynllun Cyflawni
- Dangosyddion Perfformiad

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd Aelodau’r Pwyllgor sylw at gyfraddau ymatebion e-bost C2C. Dywedodd swyddogion y byddai’r system yn cynhyrchu ymateb awtomataidd i e-bost. Dylai ymateb llawn gael ei anfon cyn pen 24 awr, fodd bynnag, os oedd y mater yn un cymhleth yna caiff ymateb dros dro ei anfon yn nodi bod y ganolfan yn gofyn am gyngor ar y mater dan sylw. Roedd gofyn i gyfarwyddiaethau ymateb a bod modd tracio’r broses hon.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y gostyngiad yn hyd y ciwiau yn deillio o gyfyngu ar oriau agor C2C, a arweiniodd at nifer gormodol o alwadau yn ystod amser cinio na ellid delio â hwy. Cyflwynwyd amserau agor estynedig gan ddefnyddio adnoddau staff cyfatebol, a oedd yn galluogi cwsmeiriaid i ffonio ar ôl 5pm, gan ostwng y galw uchel sy'n digwydd yn ystod amser cinio. O ganlyniad roedd staff yn ateb ac yn datrys mwy o alwadau yn ystod y cyfnod hwn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y rhagymadrodd ar ddechrau pob galwad yn hanfodol. Er bod y gweithlu yn meddu ar sgiliau niferus, mae timau arbenigol yn delio â rhai galwadau, y mae'n rhaid iddynt gael eu dewis gan y defnyddiwr ar ddechrau’r alwad.

Trafododd y Pwyllgor y Gwasanaeth Ymholiadau Aelodau ac awgrymwyd nad yw'r gwasanaeth yn datrys problemau cyn gyflymed â C2C, ac nad oeddent yn cael gwybod pan fo achosion wedi'u cau.

Roedd swyddogion yn cydnabod ers bod y Tîm Ymholiadau Aelodau yn meddu ar wybodaeth gyffredinol, roedd C2C yn cynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â rheoli gwastraff, priffyrdd a’r Dreth Gyngor a hefyd yn cyflwyno adroddiad cau achos.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i glywed sut mae’r Cyngor yn delio â chwynion a gyhoeddir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Esboniodd swyddogion bod proffiliau o'r trydariadau/sylwadau yn cael eu darllen a’u cadw, a bod Tîm y We yn ymateb iddynt.

Rhoddwyd gwybodaeth i’r Pwyllgor am lefelau absenoldeb salwch. Roedd tueddiadau yn digwydd gan fod y ddynameg mewn amgylchedd gwaith agos yn gyfrifol am salwch tymor byr. Roedd problemau’n gysylltiedig â straen yn cael eu monitro. Nodwyd bod amgylcheddau gwaith teleffoni yn denu personél ieuengach.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod hoffterau staff yn cael eu hystyried wrth ddyrannu llifoedd gwaith. Mae llifoedd arbenigol ar waith sy’n cynnwys staff sy’n meddu ar y wybodaeth i ddelio â galwadau arbenigol. Mae’r rhai galwadau yn amlwg yn fwy cymhleth nag eraill, ac mae hyfforddwyr penodol ar y safle i gynorthwyo â hyn. Gallai staff gylchdroi eu llwythi gwaith yn seiliedig ar eu dewisiadau, fodd bynnag, mae galwadau mwy cymhleth, y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai er enghraifft, yn cael eu trin gan dîm arbenigol.

Dywedodd swyddogion bod adolygiad o'r cymorth a gynigir gan y Gwasanaethau Aelodau ar y gweill.

**LLYWODRAETHU A GWASANETHAU CYFREITHIOL**

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Daniel De'Ath, Aelod Cabinet dros Ddiogelwch, Sgiliau, Ymgysylltu a Democratiaeth
- David Marr, Swyddog Monitro Dros Dro
- Elizabeth Weale, Rheolwr Cyfreithiol
- Paul Keeping, Rheolwr Craffu a Chydraddoldeb

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor a'u bod yn cynnwys gwasanaethau cymorth corfforaethol megis Gwasanaethau Aelodau, Gwasanaethau Etholiadol, Cydraddoldeb, Gwasanaethau Cyfreithiol a Chraffu.

Esboniodd y Cynghorydd De'Ath mai adran fach yw hon, a'i bod yn cynorthwyo â swyddogaeth democrataidd y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan gynghorwyr a swyddogion. Mae'r gwaith o gyflwyno'r Safonau Iaith yn cael ei ategu ac mae'n hanfodol cynnal a datblygu gwasanaeth dwyieithog. Mae heriau i'w hwynebu yn y dyfodol gyda chyflwyniad y Bil Llywodraeth Leol a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad yn amlinellu'r canlynol:

- Cyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth
- Dangosyddion Corfforaethol Allweddol
- Cyflawniadau 15/16
- Blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth
- Blaenoriaethau busnes eraill
- Mesuryddion Perfformiad

Tynnodd y Pwyllgor sylw at fesurau'r Gymraeg sydd ar waith gan holi a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â hwy. Sicrhaodd swyddogion yr Aelodau bod y Cyngor mewn sefyllfa dda a bod targedau'n cael eu bwrw. Os ystyrir bod y Cyngor yn methu â chydymffurfio, gellid cyflwyno dirwyo o £5000 iddo ac felly mae trefniadau diogelu ar waith.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor bod swyddogaethau meincnodi ac ymchwil yn rhan o'r swyddogaeth Craffu. Mae'r gwaith o baratoi adroddiad meincnodi ac adolygiad Craffu ar y gweill.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod KPI DS03 yn hanesyddol, gyda 77% o'r argymhellion wedi'u cytuno gan y Cabinet. Byddai'r materion hyn hefyd yn rhan o Adolygiad Datblygiad Perfformiad Personol (DPP) y Cadeirydd Craffu ac Arolwg Boddhad Aelodau.

PENDERFYNWYD: Y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am fod yn bresennol yn y cyfarfod gan nodi'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau (mae llythyr wedi'i atodi).

87 : ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL: CYDADRODDIAD GORCHWYL A GORFFEN Y PUM PWYLLGOR CRAFFU 6:40PM

Croesawodd y Pwyllgor:

- Y Cynghorydd Paul Mitchell, Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a grŵp gorchwyl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol
- Richard Bowen, Prif Swyddog Craffu

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y'u gwahoddir i ystyried a chytuno ar adroddiad terfynol cyd-ymarfer gorchwyl a gorffen i adolygu opsiynau ar gyfer rhoi Ardoll Seilwaith Cymunedol ar waith yng Nghaerdydd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Mitchell a Richard Bowen y canfyddiadau i'r Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad, gwneud unrhyw newidiadau a chytuno p'un ai i gymeradwyo'r cynnwys yr adroddiad. Petai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad drafft, byddai'r Cadeirydd yn ei gyflwyno i'r Cabinet. Byddai'r Cabinet wedyn yn ymateb i'r adroddiad a byddai eu hymateb yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y Pwyllgor i'w ystyried.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar yr argymhellion canlynol:

- Argymhelliad 1 – Parth Preswyl Allanol, pryderon ynghylch y cyfraniadau S106, sef £250 fesul metr sgwâr. Cytunwyd ar sail y penderfyniad i fonitro cyfraniadau S106 am 2 flynedd.

- Argymhelliad 2 - Cytunwyd

- Argymhelliad 3 - Cytunwyd

- Argymhelliad 4 – Codwyd pryderon o ran y cynnydd ym mhoblogaeth myfyrwyr y ddinas ac awgrymodd Aelodau y dylid cynyddu'r gyfradd o £100 fesul metr sgwâr. Awgrymwyd y dylid cryfhau'r iaith i adlewyrchu hyn.

- Argymhelliad 5 - Cytunwyd

- Argymhelliad 6 - Cytunwyd
- Argymhelliad 7 - Cytunwyd

- Argymhelliad 8 - Cytunwyd

- Argymhelliad 9 - Cytunwyd

- Argymhelliad 10 - Cytunwyd

- Argymhelliad 11 – Cyfeiriad at y Rhaglen Partneriaeth Tai, mae hyn yn dibynnu ar y raddfa ac os ydynt wedi'u lleoli yn y safleoedd strategol.

- Argymhelliad 12 - Cytunwyd

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad.

88 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10 Mai 2016